



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success



menter
a busnes

Partneriaeth Arloesi Ewrop yng Nghymru (EIP Wales)

Cwestiynau Cyffredin



Version	Date	Author	Approved by	Page(s)
1	14/03/2018	Owain Rowlands	Lynfa Davies	Page 1 of 7

Beth yw EIP Wales?

Lansiwyd Partneriaeth Arloesedd Ewrop ar gyfer Cynhyrchiant a Chynaliadwyedd Amaethyddol (EIP-AGRI) gan yr Undeb Ewropeaidd yn 2012 i gyfrannu at strategaeth 'Ewrop 2020' yr Undeb ar gyfer twf deallus, cynaliadwy a chynhwysol. Mae'r strategaeth hon yn gosod atgyfnerthu ymchwil ac arloesedd fel un o'i bum prif amcan ac yn cefnogi agwedd newydd rhyngweithiol tuag at arloesedd: Partneriaethau Arloesedd Ewrop.

Mae EIP Wales yn anelu at gyfrannu at gyflenwad bwyd, dwysfwyd a bio-ddeunyddiau, a rheolaeth gynaliadwy o'r adnoddau naturiol hanfodol y mae ffermio a choedwigaeth yn dibynnu arnynt, gan weithio ar y cyd â'r amgylchedd. I gyflawni'r nod hwn, mae Partneriaeth Arloesedd Ewrop yng Nghymru yn dod ag actorion arloesedd (ffermwyr, cynghorwyr, ymchwilwyr, busnesau, Sefydliadau nad ydynt yn rhan o'r Llywodraeth, ayyb) ac yn cynorthwyo i bontio rhwng ymchwil a gwaith ymarferol trwy Grwpiau Gweithredol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu cefnogi'n ariannol trwy'r Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Beth yw Grwpiau Gweithredol?

Mae Grwpiau Gweithredol yn cael eu sefydlu i ymdrin â heriau penodol, ac i ymchwilio i ddulliau newydd ac arloesol a fydd o werth i eraill yn y diwydiant amaeth a choedwigaeth. Bydd maint a chyfansoddiad y Grŵp Gweithredol yn ddibynnol ar y prosiect, sy'n golygu y gallai un Grŵp Gweithredol edrych yn gwbl wahanol i un arall. Gall aelodau Grwpiau Gweithredol gynnwys amrywiaeth o unigolion o gefndiroedd gwahanol, megis y rhai a restrir isod, a fyddai'n cael eu diffinio fel 'actorion':

- Ffermwyr
- Coedwigwyr
- Ymchwilwyr sy'n ymwneud ag amaeth, bwyd neu goedwigaeth
- Cynghorwyr amaeth/coedwigaeth
- Busnesau amaethyddol, bwyd-amaeth neu goedwigaeth sy'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi
- Sefydliadau nad ydynt yn rhan o'r llywodraeth

Version	Date	Author	Approved by	Page(s)
1	14/03/2018	Owain Rowlands	Lynfa Davies	Page 2 of 7

Beth yw'r meini prawf sylfaenol ar gyfer Grŵp Gweithredol?

Mae'n rhaid i bob Grŵp Gweithredol gynnwys:

- Dau ffermwr / coedwigwr o fusnesau gwahanol sydd wedi'u cofrestru gyda Cyswllt Ffermio. Defnyddiwch y linc canlynol i weld y ffurflen gofrestru a'r meini prawf: <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/ffurflen-gofrestru-cyswllt-ffermio>
- Un aelod ychwanegol a allai fod yn ymchwilydd, ymgynghorydd, corff anllywodraethol neu fusnes amaethyddol / coedwigaeth

Nid oes cyfyngiad i faint Grŵp Gweithredol, ond mae'n rhaid i bob aelod fod â rôl weithredol ac unigryw a rhoi mewnbwn i'r gweithgareddau grŵp. Gall y grŵp fod newydd ei ffurfio neu'n seiliedig ar grŵp sydd eisoes yn bodoli sy'n dymuno ymchwilio i her neu gyfle newydd. Dylai pob grŵp sefydlu cylch gorchwyl a bydd pob aelod yn cytuno â nhw. Bydd pob actor ar gyfer grŵp a'u rôl neu swyddogaeth benodol angen cael eu nodi'n glir o fewn y cais, yn ogystal ag unrhyw gefnogaeth arbenigol sydd ei angen.

Pa gefnogaeth sydd ar gael?

Mae Cyswllt Ffermio yn cefnogi datblygiad EIP Wales trwy'r Ganolfan Gyfnewid Gwybodaeth (KE Hub) a thrwy roi mynediad i froceriaid arloesedd.

Bydd y gefnogaeth hon yn cynorthwyo gyda datblygiad Grwpiau Gweithredol, gan gynnig cyfeirio cychwynnol a mynediad at dystiolaeth sylfaenol a gweithgaredd cysylltiedig o lefydd eraill, gan gynnwys Rhwydwaith Amaeth ehangach EIP yr UE. Y Ganolfan Gyfnewid Gwybodaeth a leolir yn IBERS, Aberystwyth, yw'r pwynt cyswllt cyntaf i ffermwyr a choedwigwyr sy'n dymuno cofrestru diddordeb mewn datblygu eu syniadau arloesol, ac i gael mynediad i gefnogaeth ac arbenigedd Brocer Arloesedd. Gall unigolion gysylltu â'r tîm EIP Wales yn uniongyrchol trwy borth pwrpasol ar lein <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/ffurflen-ymholiad-partneriaeth-arloesedd-ewrop>

Version	Date	Author	Approved by	Page(s)
1	14/03/2018	Owain Rowlands	Lynfa Davies	Page 3 of 7

Sut gall y Ganolfan Gyfnewid Gwybodaeth gefnogi datblygu Grwpiau Gweithredol?

I ddechrau, bydd y Ganolfan Gyfnewid Gwybodaeth yn asesu'r syniad arloesol i weld os ydyw o fewn cwmpas EIP Wales ai peidio, ac i sicrhau nad yw'r cynnig eisoes yn cael ei ddatblygu mewn lleoliad arall o fewn yr UE. Bydd y Ganolfan Gyfnewid Gwybodaeth hefyd yn cysylltu gyda phrosiectau tebyg i osgoi dyblygu gweithgaredd ac i adnabod cyfleoedd ar gyfer ychwanegu gwerth trwy rannu data a gwybodaeth prosiectau.

Os yw'r syniad o fewn cwmpas EIP Wales, bydd y grwp yn medru dewis Brocer Arloesedd o'r rhestr Broceriaeth Cyswllt Ffermio sydd wedi'u cymeradwyo a fydd yna'n eu cynorthwyo i ddatblygu eu Grŵp Gweithredol ac i gyflwyno cais ffurfiol ar ran eu prosiect.

Bydd prosiectau sydd tu allan i gwmpas EIP Wales yn cael eu cefnogi a'u cyfeirio at elfennau eraill perthnasol o raglen Cyswllt Ffermio neu fentrau cefnogi partneriaid eraill.

Pwy sydd ddim yn gallu ymgeisio?

Ni all y sefydliadau na'r unigolion canlynol weithredu fel 'prif actor' neu fod yn rhan o'r Grŵp Gweithredu:

- Adrannau Llywodraeth
- Sefydliadau sy'n cael eu hariannu'n llawn neu'n rhannol gan arian cyhoeddus, e.e. Cyrff Cyhoeddus heb fod yn Adrannol, cyrff ardoll neu ffermydd dan berchnogaeth neu sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol

Version	Date	Author	Approved by	Page(s)
1	14/03/2018	Owain Rowlands	Lynfa Davies	Page 4 of 7

Rôl y Brocer Arloesedd

Bydd y Broceriaid Arloesedd yn arwain y grŵp trwy'r cyfnod datblygu ac os oes angen, trwy gyfnod darparu eu prosiect. Yn y lle cyntaf, byddant yn cynorthwyo gyda diffinio amcanion prosiectau a helpu adnabod a recriwtio 'actorion' grŵp addas a all gyfrannu'n weithredol i weithgareddau'r Grŵp Gweithredol. Mae ganddynt hefyd fynediad at dystiolaeth sylfaenol a gweithgaredd cysylltiedig o lefydd eraill, gan gynnwys Rhwydwaith Amaeth ehangach EIP-Agri yr UE.

Nid yw'n angenrheidiol i unrhyw grŵp ddefnyddio gwasanaethau Brocer Arloesedd i ddatblygu a darparu eu cynnig.

Beth sy'n cael ei gyllido?

Bydd prosiectau sydd wedi'u eu cymeradwyo'n canolbwyntio'n bennaf ar feysydd gan gynnwys:

- datrysiadau technegol i gynyddu cynhyrchiant neu effeithlonrwydd adnoddau gwasanaethau ecosystem
- natur ymarferol y pridd
- rheolaeth dŵr
- datrysiadau integredig i'r gadwyn gyflenwi
- meincnodi ac arloesedd rheolaethol i gynhyrchwyr
- datblygiad cynlluniau newydd ym maes ansawdd bwyd ac iechyd da byw
- Bydd cynigion arloesol eraill sy'n cefnogi blaenoriaethau'r UE yn amlwg hefyd yn cael eu hystyried.

A oes yna unrhyw flaenoriaethau ar gyfer EIP Wales?

Mae'n rhaid i brosiectau sy'n cael eu hariannu trwy EIP Wales fynd i'r afael â Blaenoriaeth 1 a meysydd Ffocws 1a a 1b yn ogystal ag o leiaf un o feysydd ffocws Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 fel y'i hamlinellir yn nodiadau Canllawiau'r Cynllun.

Mae EIP Wales yn awyddus i glywed gan brosiectau sydd â'r potensial i allu mynd i'r afael a mwy nag un o'r meysydd Blaenoriaeth/Ffocws sy'n weddill.

Mae EIP Wales hefyd yn awyddus i glywed gan brosiectau sydd â'r potensial i greu atebion arloesol y gall mwy nag un o'r sectorau amaethyddol fanteisio arnyn nhw, ynghyd â chael aelodau o amrywiaeth o sectorau i fod yn rhan o'r prosiect hefyd.

Beth yw'r uchafswm cyllid sydd ar gael?

Mae rôl y Brocer Arloesedd wedi'i ariannu'n llawn er mwyn cefnogi datblygiad y Grŵp Gweithredol, a gweithrediad y prosiect, yn ddibynnol ar gymeradwyaeth EIP Wales. Mae uchafswm o £5,000 ar gael i dalu costau Broceriaid Arloesedd yn ystod y cyfnod datblygu, sy'n cynnwys cefnogi'r grŵp i baratoi'r cais ac unrhyw ddogfennau cefnogol a all fod yn ofynnol. Bydd £12,000 ychwanegol ar gael i dalu costau'r Brocer Arloesedd i gefnogi gweithrediad y prosiect.

Version	Date	Author	Approved by	Page(s)
1	14/03/2018	Owain Rowlands	Lynfa Davies	Page 5 of 7

Mae hyd at £40,000 ar gael i ymgeiswyr Grŵp Gweithredol llwyddiannus i ddarparu eu prosiectau. Darperir manylion pellach ynglŷn â pha eitemau a gweithgareddau sy'n gymwys ac yn anghymwys i gael eu hariannu yn Nodiadau Cyfarwyddyd y Cynllun.

Bydd angen i unrhyw gostau cysylltiedig â chynnal y prosiect yn dilyn cymeradwyaeth gan EIP Wales gael eu nodi'n glir a'u cyfiawnhau o fewn y cais a'r cynllun prosiect cefnogol.

A oes angen arian cyfatebol?

Nid oes angen arian cyfatebol, ond bydd cais prosiect yn cael ei atgyfnerthu drwy ddangos ymrwymiad ychwanegol gan aelodau'r grŵp.

A oes unrhyw gyfyngiadau?

Gan fod EIP Wales yn gynllun drawsbynciol, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud galwad penodol am yn erbyn unrhyw Flaenorieth neu Maes Canolbwynt os na fydd digon o geisiadau wedi eu derbyn, er mwyn sicrhau dosbarthiad gwastad yn y prosiectau a gefnogir.

Bydd cyfran penodol o'r cyllid ar gyfer Meusydd Canolbwyntio 4a, 4b a 4c dros gyfnod y rhaglen yn cael eu neilltuo ar gyfer prosiectau coedwigaeth. Ceir mwy o wybodaeth ynghylch y Blaenoriaethau a'r Meusydd Canolbwyntio yn Nodiadau Cyfarwyddyd y Cynllun.

Sut i ymgeisio?

Y cam cyntaf yw cysylltu hefo EIP Wales gydag eich syniad. Gellir hyn gael ei wneud drwy:

- Ffurflen ymholiad cychwynnol ar wefan Cyswllt Ffermio (<https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/ffurflen-ymholiad-partneriaeth-arloesedd-ewrop>)
- E-bost (eipwales@menterabusnes.co.uk)

Ar ôl trafodaeth gychwynnol am eich syniad bydd amlinelliad o'r prosiect yn cael ei gyflwyno i Ganolfan Gyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio (KE Hub). Bydd gofyn i bob prosiect posibl cael ei adolygu gan y KE Hub a fydd yn cynnal archwiliadau llenyddiaeth gefndirol ar eich rhan i weld pa wybodaeth sydd eisoes ar gael ynglŷn â'ch pwnc.

Os bydd bwllch yn yr wybodaeth, cewch wahoddiad i gwblhau ffurflen amlinelliad prosiect. Bydd pob ymgeisydd yn cael canllawiau ynghylch y broses.

Version	Date	Author	Approved by	Page(s)
1	14/03/2018	Owain Rowlands	Lynfa Davies	Page 6 of 7

Sut bydd fy nghais yn cael ei asesu?

Bydd y cais llawn yn cael ei werthuso yn unol â Chanllawiau'r Cynllun a rheolau cymhwysedd. Mae'n ofynnol cynnal gwerthusiad diwydrwydd dyladwy llawn ar y prosiect a sicrhau bod y prosiect yn gymwys i ymgeisio. Unwaith y gellir sicrhau bod y prosiect yn gymwys bydd hi'n bosibl gwneud penderfyniad terfynol ynghylch y grant. Ni ellir gwarantu y bydd grant yn cael ei gymeradwyo ar gyfer y prosiect. Fel arfer, mae'r broses werthuso ar gyfer ceisiadau cyflawn yn cymryd hyd at 3 mis, o'r dyddiad y derbynir y cais llawn ac unrhyw wybodaeth gysylltiedig.

Pa mor hir fydd hi'n gymryd i werthuso fy nghais?

Bydd gwerthusiad llawn yn cael ei gynnal o fewn 90 niwrnod o dderbyn y cais.

Lledaenu Canlyniadau

Mae lledaenu canlyniadau prosiectau yn rhan bwysig o'r broses. Bydd gofyn i'r prosiectau gyflwyno adroddiadau cynnydd rheolaidd ynghyd ag adroddiad terfynol i EIP Wales.

Bydd Cyswllt Ffermio yn defnyddio'r wybodaeth o'r adroddiadau i ledaenu'r canfyddiadau i'r diwydiant ehangach trwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys gwefan Cyswllt Ffermio, erthyglau technegol a chyflwyniadau mewn cyfarfodydd a digwyddiadau.

Gall fod yn ofynnol i Grwpiau Gweithredol gymryd rhan mewn gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth Cyswllt Ffermio yn ogystal â phartneriaid er mwyn rhannu a lledaenu gwersi a ddysgwyd ac arfer dda gyda'r diwydiant. Gall hyn gynnwys (ond heb fod yn rhestr lawn) cynorthwyo gyda pharatoi erthyglau technegol, cymryd rhan mewn gweithgareddau grwpiau trafod, cyflwyno cyflwyniadau neu fod ar gael i gymryd rhan mewn gweithgareddau Rhwydwaith Arddangos Cyswllt Ffermio.

Mae hefyd yn amod ar gyfer y cymorth ariannol bod pob adroddiad prosiect yn cael ei gyflwyno i wefan EIP AGRI <https://ec.europa.eu/eip/agriculture/en>.

Version	Date	Author	Approved by	Page(s)
1	14/03/2018	Owain Rowlands	Lynfa Davies	Page 7 of 7